Ysgolion Esgobaeth Llanelwy
Diocese of St Asaph Church Schools

YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES
ESGOBAETH LLANELWY / DIOCESE OF ST ASAPH

Rhagfyr 12fed, 2016

Arwyn Thomas
Pennaeth Addysg
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
LL55 1SH

Annwyl Arwyn

Diolch am y cyfle i gael cyfarfod gyda chi, y Cyngh Gareth Thomas, Iwan Evans, a Hedd Tomos heddiw, lle gawson ni gyfle i'ch sicrhau'n bellach am ein hymrwymiad i'r Campws Dysgu 3-19 yn Y Bala a'n bwriad i barhau i weithio mewn partneriaeth ar y prosiect.

Derbyniais e-bost y prynhawn yma gan Hedd Tomos gyda chais, sef y penderfyniad a wnaed wedi imi adael y cyfarfod: "*Wedi inni ystyried yn bellach, penderfynwyd y base hi'n fwy priodol petaech chi'n gosod allan eich safbwynt yn ffurfiol o'n blaen er mwyn inni fedru cyfleu hyn i'n haelodau etholedig yfory.*"

Felly, dyma ddatgan ein safbwynt fel y gofynnwyd.

1) Mae'r materion ynghylch hyrwyddo'r ysgol bellach wedi'u codi gyda Llywodraeth Cymru, sydd wedi cyhoeddi'n ddiweddar Reoliadau Cymeriad Crefyddol Ysgolion (Gweithdrefn Ddynodi) (Cymru) 2016, i'r rhai y base'r ysgol newydd yn Y Bala yn atebol iddyn nhw. Felly, tra bo gan yr Awdurdod a'r Esgobaeth farn wahanol ar fanylyn technegol cyfreithiol, does dim rheswm pam y dylai hynny godi pryder ar yr Awdurdod, a does dim rheswm chwaith i'r Esgobaeth dynnu'n ôl ei chefnogaeth i'r cynnig presennol ar y mater hwn. Gellir symud y mater 'hyrwyddo' o'r bwrdd bellach.

2) Mewn e-bost gan y Pennaeth Addysg at y Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol ar Awst 15fed, 2016, gwnaeth Cyngor Gwynedd hi'n glir i'r Esgobaeth nad ydyn nhw'n dymuno defnyddio nac ymgorffori safle Ysgol Beuno Sant o fewn safle'r prosiect newydd. Felly, fe ddylid ystyried safle Ysgol Beuno Sant fel ased cyfalaf posib, y gellir ei roi tuag at gost y safle newydd. Dyma'r drefn arferol gyda materion o'r fath.

Ynglŷn â'r daflen llwybrau opsiwn a ddarparwyd gan yr Esgobaeth i Gyngor Gwynedd, gellir gwireddu hyn trwy Opsiwn 2 neu Opsiwn 3, gydag Opsiwn 2 yn opsiwn dewisol gan yr Esgobaeth, gan nad ydy'n ddibynnol ar amser, ac yn golygu y byddai modd i Gyngor

Swyddfeydd yr Esgobaeth, Stryd Fawr, Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0RD
Diocesan Offices, High Street, St Asaph, Denbighshire LL17 0RD
☎ 01745 532593 01745 530078 E rosalindwilliams@churchinwales.org.uk
www.dioceseofstasaph.org.uk

Mae Esgobaeth Llanelwy yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg

The Diocese of St Asaph welcomes correspondence in Welsh or English

Gwynedd sylweddoli gwerth yr ased, gan ddefnyddio ystod yr arbenigedd proffesiynol sydd ar gael iddo.

3) Fe fyddai gwerth safle Ysgol Beuno Sant yna'n cael ei ymgorffori fel rhan-berchnogaeth yng ngwerth tir safle'r ysgol newydd ar ei chwblhau. Felly, pan fydd yr ysgol newydd yn agor, bydd perchnogaeth safle'r ysgol yn cael ei throsglwyddo i'r Esgobaeth (fel sy'n digwydd gyda phob ysgol Eglwys er mwyn bodloni'r comisiwn elusennau). Yn atodedig i'r ddogfen drosglwyddo hon fe fyddai dogfen gyfreithiol arall yn egluro pwy sydd â'r hawl i werth y safle, os digwydd iddo byth gael ei werthu. Felly, er enghraifft, os mai £100 mil ydy gwerth cyfalaf safle Beuno Sant a gwerth tir safle'r ysgol newydd wedi ei chwblhau yn £1 filiwn yna, - os ar unrhyw adeg yn y dyfodol, y gwerthid y safle - yna fe fydda'i Esgobaeth â'r hawl i 10% o werth y gwerthiant a Chyngor Gwynedd 90%.

4) Petai achos yn codi ar unrhyw adeg lle caed penderfyniad na ddylai'r ysgol bellach fod yn Ysgol Eglwys, yna fe fyddai'r Esgobaeth yn dychwelyd perchnogaeth y safle i Gyngor Gwynedd, yn gyfnewid am ei chyfran yng ngwerth tir y safle ar ddiwrnod y trosglwyddo.

Atodaf hefyd gopi pellach o'r papur opsiynau a gyflwynwyd gen i yn ein cyfarfod. Os hoffech unrhyw eglurhad pellach, gadewch imi wybod. Fe faswn yn fodlon iawn mynychu cyfarfod pellach os bydd angen.

Yn gywir,

Rosalind Williams
Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes

Rhoddwyd y rhodd wreiddiol i sefydlu Ysgol Beuno Sant: safle'r ysgol yn eiddo dan ymddiriedolaeth i'r Esgobaeth, wedi ei warchod gan ddychweliad.

Cynigiwyd cau Ysgol Beuno Sant a chael ysgol newydd yn perthyn i'r Eglwys yng Nghymru yn ei lle.

Y ddeddf elusennau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Esgobaeth amddiffyn yr ased drwy drechu'r cymal dychweliad.

## Dewis 1

Defnyddio safle presennol Ysgol Beuno Sant fel rhan o'r Campws Dysgu newydd 3-19 oed ar gyfer y Bala.

Y safle'n parhau i gael ei ddefnyddio at ddibenion addysgol.

Trechu'r dychweliad.

## Dewis 2

Safle presennol Ysgol Beuno Sant yn cael ei gyfnewid yn rhannol am gyfran pro-rata yn safle'r Campws Dysgu 3-19 oed newydd. Cyfran ariannol y rhanddeiliaid yn y safle a'r ysgol newydd yn cael ei diogelu gan Femorandwm. Gall Cyngor Gwynedd ddefnyddio neu werthu safle presennol Ysgol Beuno Sant fel y mynna. Yr Esgobaeth yn dal y safle newydd mewn ymddiriedolaeth.

Trechu'r dychweliad.

## Dewis 3

Safle presennol Ysgol Beuno Sant yn cael ei werthu gan yr Esgobaeth; byddai gan Gyngor Gwynedd hawl i'r elw a wneir yn sgil y gwerthiant. Safle'r Campws Dysgu 3-19 oed yn cael ei drosglwyddo i'r Esgobaeth, i'w ddal mewn ymddiriedolaeth.

Trechu'r dychweliad.

## Dewis 4

Pe bai Cyngor Gwynedd yn gwrthod cymryd safle Ysgol Beuno Sant, byddai'n dychwelyd i ystâd Rhiwlas. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i'r ystâd dalu 23% o dreth enillion cyfalaf i CaThEM ar werth llawn y safle ar y farchnad, ynghyd â'r holl gostau yn gysylltiedig â'r gwerthu a'r camau cyfreithiol, ar gost sylweddol i'r ystâd.

Gweithredu'r dychweliad, a'r ased yn cael ei golli i fyd addysg.

# Geirfa Termau

**Dychweliad:**

Dull diogelu cyfreithiol, gyda'r nod o ddiogelu budd y rhoddwr mewn ysgol (fel arfer y tir lle'r adeiladwyd yr ysgol), pe bai'r ysgol yn peidio â bodoli.

*Os yw un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru yn cau gydag dychweliad mewn grym, mae'n rhaid i'r Esgobaeth yn ôl y gyfraith olrhain etifeddion y rhoddwr gwreiddiol a dychwelyd naill ai safle'r ysgol neu enillion ei werthu am werth llawn y farchnad. Gan hynny, mae'r system addysg yn colli'r rhodd.*

**Trechu'r dychweliad:**

Defnyddio posibiliadau "Deddf Dychweliad Safleoedd 1987" i alluogi gwerth y rhodd wreiddiol i aros o fewn y system Addysg.

*Mae'r Gyfraith Elusennau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Esgobaeth wneud popeth o fewn ei gallu i gadw gwerth y rhoddion hanesyddol hyn o fewn y system addysg, gan barhau i wasanaethu addysg pobl ifanc yng Nghymru.*